

PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 20 MEHEFIN 2023

Yn
bressenol: Cynghorydd Wong(Cadeirydd)

Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Henshaw, Jones,
Lloyd Jones, Shimmin a/ac Thomson

1 : CADEIRYDD AC AELODAETH Y PWYLLGOR

Nodwyd.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Jenkins ac roedd y Cynghorydd Shimmin wedi dweud y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : CANOLFAN HAMDDEN PENTWYN

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Aelodau i graffu ar y cynigion newydd ar gyfer Canolfan Hamdden Pentwyn, gan gynnwys gwelliannau arfaethedig a threfniadau prydlesu, a sut mae'r rhyngwyneb hwn yn gweithio â darpariaeth GLL. Byddai aelodau hefyd yn cael cyfle i archwilio unrhyw oblygiadau i'r Cyngor, gan gynnwys goblygiadau ariannol ac a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke – Aelod Cabinet – Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau, Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu, a Chris Barnett – Rheolwr Gweithredol – Prosiectau Mawr ar gyfer yr eitem hon.

Eglurodd y Cadeirydd strwythur y cyfarfod fel cwestiynau i'r panel ar y wybodaeth yn y parth cyhoeddus, ac yna cwestiynau mewn sesiwn gaeedig ar Atodiadau 2-5.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac yn dilyn hynny rhoddwyd cyflwyniad gan swyddogion i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Nododd a chroesawodd yr Aelodau fod Rygbi Caerdydd wedi dangos parodrwydd i gydweithio â chymunedau lleol, gan ganiatáu ar gyfer defnydd cymunedol a chyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd Partneriaethau a Chymunedau Gyda'n Gilydd; Bydd yr ardal gyfagos i'r caffi yn hygyrch ar gyfer gweithgareddau cymunedol llai; Bydd y caeau 3G ar agor i'w defnyddio gan y gymuned y tu allan i feddiannaeth Rygbi Caerdydd wedi'i hamserlenni, sydd yn bennaf ar ddyddiau'r wythnos o 10am tan 3pm; Bydd cyfleuster dyddiadur neu raglennu'n cael ei roi ar waith i hwyluso rheolaeth ac amserlennu defnydd cymunedol.

Roedd aelodau'n falch o glywed am y cynllun ynni haul arfaethedig, y disgwylir iddo leihau ôl troed carbon y ganolfan hamdden gan 22%. Dywedwyd wrthynt hefyd y bydd y Pwmp Gwres o'r Ddaear yn gwella'r buddion amgylcheddol hyn ymhellach. Awgrymodd Zack Hellard, cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid, i archwilio gwelliannau amgylcheddol ychwanegol yn unol ag ymrwymadau Caerdydd Un Blaned Cyngor Caerdydd, fel casglu dŵr.

Rhodddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod canolfannau hamdden yn rhan o ystâd y Cyngor a'u bod wedi ymrwymo i sicrhau sero carbon net erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys cyfle i Ganolfan Hamdden Pentwyn ymgorffori gwelliannau amgylcheddol pellach sy'n cyd-fynd â nodau'r Cyngor.

O ran costau, nododd yr Aelodau fod y gyllideb ar gyfer y cynllun wedi gostwng gan £0.5 miliwn, gan arwain at gyfanswm cyllideb o £4.5 miliwn. Nododd yr aelodau hefyd nad yw rhwng £1 miliwn ac £1.5 miliwn bellach ar gael o gynllun Parcio a Theithio Pentwyn i ariannu'r prosiect penodol hwn. Mae buddsoddiad y Cyngor yn y cynllun yn seiliedig ar sail "Buddsoddi i Arbed," gyda'r disgwyliad y bydd yr holl arian yn cael ei ad-dalu.

O ran maint y pwll, clywodd yr Aelodau bod galw mawr am gyrsiau dysgu nofio yng Nghaerdydd. Maint y pwll arfaethedig yw pwll dysgwyr sy'n mesur 20 metr x 8 metr, gyda dyfnder o 1 metr. Mae'r dimensiynau hyn wedi'u pennu trwy gydweithio manwl gyda pheirianwyr, y Gymdeithas Nofio Amatur, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Y nod oedd nodi'r maint pwll mwyaf cost-effeithiol sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n dysgu nofio.

Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n synnu nad oedd Nofio Cymru, a'u hymgynghorwyr arbenigol ar ddefnydd ynni'r pwll, wedi bod yn rhan o'r broses. Maent yn argymhell cychwyn deialog gyda Nofio Cymru i sicrhau bod yr holl arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael o ran defnyddio ynni pwll yn cael eu hystyried.

Nododd yr Aelodau sicrwydd swyddogion bod y gostyngiad ym maint y pwll yn cael ei yrru'n bennaf gan yr angen i gynnal costau gweithredu fforddiadwy, sy'n cynnwys nid yn unig costau ynni ond hefyd costau staffio, gyda phyllau mwy nag 20 metr o hyd yn gofyn am nifer fwy o staff i weithredu'n effeithiol.

Ar ben hynny, clywodd yr Aelodau fod pyllau eraill ar gael yng Nghaerdydd i ddarparu ar gyfer anghenion nofio cystadleuol. Nodwyd hefyd bod y pwll blaenorol yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn yn bwll nofio rhydd, gan ei wneud yn anaddas ar gyfer nofio cystadleuol.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch defnyddio data Cyfrifiad 2011 yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA) yn hytrach na data mwy diweddar Cyfrifiad 2021. Gofynnwyd am eglurhad o'r penderfyniad hwn.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y parodrwydd i ymgysylltu â chymunedau lleol a'u hysbysu am y cynigion, yn ogystal â gofyn am eu hadborth. Nododd yr Aelodau awgrym a wnaed yn ystod y cyfarfod i ddiwygio'r argymhelliad i'r Cabinet, sef bod y cynllun yn cael ei ystyried fel y cytunwyd arno, yn amodol ar ymgynghori â'r gymuned. Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau yn pryderu bod hyn yn awgrymu y bydd y penderfyniad ar y cynllun yn cael ei wneud cyn i'r broses ymgynghori ddigwydd.

O ran ystafelloedd newid, roedd yr Aelodau o'r farn bod cyfle i ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau ynghylch dyluniad penodol ystafelloedd newid. Eglurodd swyddogion mai'r bwriad yw y bydd yr ystafelloedd newid yn addas i deuluoedd. Mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am y prosiect yn ceisio tynnu mewnwelediadau o brofiad Pwll Rhyngwladol Caerdydd i lywio dyluniad yr ystafelloedd newid yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn. Rhannodd un aelod brofiad personol cadarnhaol o ddefnyddio ystafelloedd newid niwtral o ran rhywedd yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin.

O ran hygyrchedd, roedd yr Aelodau'n falch o glywed y bydd les y pwll nofio yn cynnwys meini prawf i sicrhau bod y pwll yn hygyrch i bawb, gan gynnwys menywod a merched Mwslimaidd. Bydd dyluniad a gweithrediad y pwll yn cael eu teilwra i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Nododd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i gyrrff llywodraethu chwaraeon gael protocolau a gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith, gan gynnwys cynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Fel rhan o fframwaith caffael y Cyngor, bydd gofyn i gontractwyr gael gwiriadau GDG.

Yn ystod y cyfarfod, trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o ddefnyddio dull dylunio modiwlaid ar gyfer y cynllun. Roeddent yn falch o glywed bod y swyddogion yn cytuno â'r awgrym hwn, gan y byddai'n caniatáu cyfleoedd yn y dyfodol i ehangu'r ddarpariaeth mewn modd mwy hyblyg a modiwlaid.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : TENNIS MEWN PARCIAU

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Aelodau i graffu ar adroddiad i'r Cabinet sy'n nodi cynigion i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb gyda Tennis Cymru i weithredu 6 safle cwrt tennis ledled Caerdydd. Byddai'r Aelodau'n gallu archwilio effaith y cynigion hyn, gan gynnwys cyflwyno cynllun aelodaeth a rheoli, yn ogystal

ag unrhyw risgiau i'r Cyngor a'r goblygiadau sy'n deillio o'r dogfennau hyn, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ariannol.

Ar gyfer yr eitem hon croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke – Aelod Cabinet – Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau a Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion eu cyflwyniad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Cynhwysedd a Hygyrchedd. Nododd Aelodau'r canlynol;

- Bydd rhifau ffôn yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau ar safleoedd Tennis Cymru er mwyn galluogi unigolion nad ydynt yn gallu archebu sesiynau ar-lein i gael mynediad i'r cyrtiau;
- Bydd swyddogion yn holi Tennis Cymru am eu cynlluniau i fynd i'r afael â chynhwysiant/allgáu digidol a byddant yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor gyda'u hymateb.
- Bydd swyddogion hefyd yn gwirio gyda Tennis Cymru i benderfynu ar y meini prawf cymhwyso ar gyfer cael Pàs Myfyrwyr ac yn rhannu'r wybodaeth honno gyda'r pwyllgor.
- Mae'r cytundeb gyda Tennis Cymru yn sicrhau y bydd mynediad am ddim ac offer am ddim ar gael ym mhob safle o fewn y cynllun. Bydd y sesiynau mynediad am ddim hyn yn cael eu trefnu ar wahanol adegau ac ar wahanol ddyddiau drwy gydol yr wythnos.
- Mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer hyfforddwr tennis llawn amser, a ddarperir gan Tennis Cymru, a fydd yn mynd ati i weithio i hybu cyfranogiad trwy sesiynau blasu am ddim, sesiynau "dod i roi cynnig arni," cyrsiau 6 wythnos am ddim, cynghreiriau tennis am ddim, ac ysgolion tennis am ddim ar draws pob safle.
- Mae meini prawf ariannu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU a'r Gymdeithas Tennis Lawnt yn pwysleisio'r angen i gynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig, gyda chanlyniadau mesuradwy.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r pwyntiau uchod ac yn pwysleisio pwysigrwydd eu rhoi cyhoeddusrwydd i drigolion er mwyn sicrhau cynwysoldeb a hygyrchedd o fewn y cynllun.

Y galw:

Trafododd yr aelodau lefel y ddarpariaeth tennis yng Nghaerdydd, gan gydnabod presenoldeb nifer o gyfleusterau preifat, a cheisio sicrwydd ynghylch y galw am ddarpariaeth ddinesig.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod Tennis Cymru wedi cynnal ymchwil ar y galw cudd am dennis yng Nghaerdydd ac yn mynegi hyder y bydd y chwe safle yn llwyddiannus. Nodwyd hefyd fod cynlluniau tebyg yn Lloegr, gan gynnwys mewn ardaloedd trefol difreintiedig, wedi cynyddu'n sylweddol y nifer sy'n cymryd rhan.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y bydd goleuadau lefel isel, na fydd yn tarfu ar drigolion lleol, yn cael eu gosod i wneud modd defnyddio'r llysoedd drwy gydol y flwyddyn.

Cododd yr aelodau bwnc tennis dan do, o ystyried yr amodau tywydd yng Nghymru. Bydden nhw'n gwerthfawrogi esboniad pam fod y ddarpariaeth tennis dan do yn Nhŷ'r Chwaraeon wedi dod i ben ac os oes posibilrwydd o'i ailagor.

Annog Talent:

Nododd yr aelodau y bydd chwaraewyr sy'n dangos potensial yn cael eu cefnogi i gael mynediad at lwybrau talent a chanolfannau datblygu.

Ymddiriedolaethau:

Fe wnaeth yr aelodau gydnabod bod sawl parc yng Nghaerdydd yn destun trefniadau Ymddiriedolaeth. Mae Ystadau Strategol a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithio ar sefydlu ffordd ymlaen, ac os mai'r Cyngor yw'r Ymddiriedolwr penodedig, bydd angen cyflwyno adroddiad penderfyniad ar wahân i'r Cabinet yn rhinwedd ei swydd fel Ymddiriedolwr.

Buddsoddiad a Chynnal a Chadw Cyfalaf:

Nododd yr Aelodau fod y prosiect hwn yn gyfle prin i ddenu cyllid a buddsoddiad i mewn i llysoedd trefol, sydd ei angen yn fawr.

Cafodd yr aelodau wybod y bydd Tennis Cymru yn ysgwyddo cyfrifoldebau cynnal a chadw'r llysoedd.

Costau:

Mynegodd yr aelodau ddiddordeb mewn cymharu'r costau arfaethedig gan Tennis Cymru â chostau chwaraeon eraill. Yn ystod y cyfarfod, soniodd sawl aelod am y costau mewn cyfleusterau tennis yng Nghaerdydd. Mae'r aelodau o'r farn y byddai'n fuddiol rhoi trosolwg o daliadau mewn cyfleusterau tennis yng Nghaerdydd a chwaraeon eraill, fel yr amlinellir yn y papurau i gynnig eglurder a chodi ymwybyddiaeth o'r gwerth a ddarperir gan gynllun Tennis Cymru.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

8 : RHAGLEN WAITH 2023-24

Nodwyd.

9 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhodddwyd diweddariad i'r Aelodau ar ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd gan y Pwyllgor.

Cytunodd yr Aelodau ar gylch gorchwyl Ymchwiliad Amgueddfa Caerdydd, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r Adroddiad Blynyddol Craffu arfaethedig 2022/23, yn Atodiad B, a geiriad y Pwyllgor hwn, sydd ynghlwm yn Atodiad C.

10 : EITEMAU BRYYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11 Gorffennaf 2023 am 5.00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm